

MAES AWYR HWLFFORDD

TELERAU AC AMODAU DEFNYDDIO

MAES AWYR HWLFFORDD

1. TELERAU AC AMODAU DEFNYDDIO

1.1	<p><u>Diffiniadau</u></p> <p>Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol i Delerau ac Amodau Defnyddio Maes Awyr Hwlfordd.</p>
1.2	<p>Ystyr CSP yw Cyngor Sir Penfro.</p>
1.3	<p>Mae'r Maes Awyr yn golygu'r holl ardal honno sy'n cynnwys Maes Awyr Hwlfordd (Llwyn Helyg) a weithredir gan Gyngor Sir Penfro, a than reolaeth Cyngor Sir Penfro, fel y diffinnir yn hyn.</p> <p>Bydd y term Maes Awyr yn gyfystyr â'r termau Awyrenfa, Erodrom, Maes Glanio, Llain Lanio neu Lanfa neu unrhyw derm tebyg arall lle bydd y cyd-destun yn pennu felly a bydd termau felly'n cario'u hystyr arferol yn ôl Cyfraith Lloegr.</p>
1.4	<p>Bydd 'Y Gweithredwr' neu 'Gweithredwr' yn golygu'r unigolyn neu'r sefydliad sydd o bryd i'w gilydd yn rheoli awyren, yn meddu arni neu'n cadw trefn arni, ni waeth ai perchennog, defnyddiwr, peilot neu rywun arall ydyw, a bydd yn golygu'r unigolyn/unigolion, y corff neu'r sefydliad a'u gweision, asiantau neu gontractwyr priodol sy'n defnyddio, sy'n ceisio defnyddio neu sydd wedi defnyddio'r cyfleusterau a gynigir yn y Maes Awyr.</p>
1.5	<p>Ystyr Amodau yw'r Telerau ac Amodau hyn ar gyfer Maes Awyr Hwlfordd ac unrhyw Reolau a Rheoliadau sy'n berthnasol i ddefnyddio'r Maes Awyr ac unrhyw orchmynion, cyfarwyddyd, cyfarwyddiadau neu is-ddeddfau sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn briodol ni waeth a fydd hynny'n ysgrifenedig neu wedi'u gwneud fel arall gan Gyngor Sir Penfro neu ar ei ran gan ei staff sy'n rheoli'r Maes Awyr.</p> <p>Bydd copi o'r Telerau ac Amodau ar gael ar gais o Ystafell Reoli'r Maes Awyr ond ystyrir y byddant yn rhwymo'r Gweithredwr ni waeth a ofynnwyd am gopi. Os bydd anghysondeb, ac i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith, bydd yr amodau hyn yn cael blaenoriaeth dros unrhyw amodau neu delerau eraill. Bydd pob Gweithredwr sydd ag awyren yn y Maes Awyr yn cael copi o'r Telerau ac Amodau a bydd gofyn iddo lofnodi cydnabyddiaeth.</p> <p>At ddiben cael ei rwymo gan y Telerau ac Amodau hyn, mae'r Gweithredwr yn gwarantu bod ganddo awdurdod a phŵer llawn i rwymo fel asiant iddo unrhyw berchennog, prydleswr, benthyciwr morgeisiedig</p>

	neu beilot yr awyren a'u holl weision, asiantau neu gcontractwyr priodol.
1.6	Ystyr Trwydded yw'r Drwydded Gyffredin Maes Glanio sydd gan CSP o ran y Maes Awyr. O dan delerau'r drwydded hon, mae'r holl weithrediadau yn y Maes Awyr yn ôl disgrisiwn CSP.
2	<u>Defnyddio'r Maes Awyr a'i Gyfleusterau</u>
2.1	Mae defnyddio'r Maes Awyr yn ddibynnol ar yr amodau canlynol.
2.2	Mae Deddf Telerau Contract Annheg 1977 yn effeithio ar delerau a hysbysiadau sy'n gwahardd neu'n cyfyngu ar atebolrwydd am esgeulustod. Mae CSP y tynnu sylw defnyddwyr posibl y Maes Awyr i gymal 3 o'r Telerau ac Amodau Defnyddio sy'n gwahardd atebolrwydd CSP mewn rhai amgylchiadau.
3.	<u>Atebolrwydd am Golled neu Ddifrod</u> Ni fydd Cyngor Sir Penfro na'i weision na'i asiantau priodol yn atebol am golled neu ddiffrod i'r awyren, ei rhannau na'i hategolion nac unrhyw eiddo sydd yn yr awyren, sy'n digwydd tra bydd yr awyren yn y maes awyr neu wrthi'n glanio neu'n esgyn yn y maes awyr, sy'n deillio neu'n arwain yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o unrhyw weithred, hepgoriad, esgeulustod neu ddiffyg ar ran Cyngor Sir Penfro (CSP), neu'i weision neu asiantau oni wnaed hynny gyda'r bwriad o achosi difrod neu'n ddi-hid a chan wybod y byddai difrod yn debygol o ddigwydd. Beth bynnag, ni fydd CSP na'i weision na'i asiantau priodol yn atebol o gwbl am unrhyw golled a/neu gost anuniongyrchol gan gynnwys colli elw gan weithredwr.
4.	<u>Gorfodaeth</u> Ni fydd CSP yn atebol o gwbl i'r Gweithredwr o dan yr Amodau Defnyddio hyn os caiff ei atal neu ei oedi rhag bodloni ei rwymedigaethau o dan yr Amodau Defnyddio hyn neu rhag parhau ei fusnes oherwydd gweithredoedd, digwyddiadau, hepgoriadau neu ddamweiniau y tu hwnt i'w reolaeth resymol, gan gynnwys streiciau, cau allan, neu anghydfodau diwydiannol eraill (p'un a ydynt yn cynnwys ei weithlu ei hun neu weithlu parti arall), methiant gwasanaeth cyfleustod neu rwydwaith cludiant, gweithred Duw, rhyfel, terfysg, cynnwrf sifil, difrod maleisus, cydymffuriad ag unrhyw ddeddf neu orchymyn, rheol, rheoliad neu gyfarwyddyd llywodraethol, damwain, methiant cyfarpar neu beiriannau gwaith, tân, llifogydd, storom, lludw folcanig neu ddiffyg cyflenwyr ac isgcontractwyr.

<p>5.</p> <p>5.1</p> <p>5.2</p> <p>5.3</p> <p>5.4</p> <p>5.5</p> <p>5.6</p>	<p><u>Talu Ffioedd a Thaliadau</u></p> <p>Bydd y Gweithredwr yn talu'r ffioedd a'r taliadau priodol am lanio, parcio neu gadw awyren fel y'u cymeradwyir o bryd i'w gilydd gan CSP gan gynnwys unrhyw ffioedd neu daliadau y cytunwyd arnynt gyda CSP, ei weision neu ei asiantau ar sail ad hoc.</p> <p>Bydd y Gweithredwr hefyd yn talu'r tâl priodol am unrhyw gyflenwadau, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir iddo neu i'r awyren yn y maes awyr gan CSP neu ar ran CSP; y taliadau am gyflenwadau, gwasanaethau neu gyfleusterau fydd y rheini a nodir yng nghynllun codi tâl cyfredol CSP, heblaw eu bod yn amodol ar gyd-drafod arall neu gytuno blaenorol. Bydd pob tâl yn cronni ar y sail briodol a nodir yn y cynllun codi tâl boed hynny'n ddyddiol, yn wythnosol, yn fisol, yn chwarterol neu yn unol ag amserlen arall y ceir cytuno arni gyda'r gweithredwr yn ôl disgrisiwn CSP.</p> <p>Heblaw y cytunwyd arnynt fel arall rhwng CSP a'r gweithredwr, bydd yr holl ffioedd a thaliadau'n cael eu talu cyn i awyren adael y maes awyr, ni waeth a fynnir hynny. Bydd taliad unrhyw ffioedd neu daliadau heb eu talu beth bynnag yn ddyledus 14 diwrnod ar ôl dosbarthu anfoneb CSP i'r gweithredwr. Bydd yr holl ffioedd a'r taliadau sy'n daladwy gan y gweithredwr yn cael eu talu'n llawn heb wrth-hawliad, gwrthgyfrifiad, ataliad na didyniad arall ar unrhyw gyfrif o gwbl.</p> <p>Bydd y Gweithredwr yn talu llog CSP ar unrhyw swm sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad dyledus yn ôl swm o 4% uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr ar y pryd.</p> <p>I osgoi amheuaeth, mae Adran 88(1) o Ddeddf Hedfan Sifil 1982 sy'n rhoi'r hawl i CSP gadw awyren am beidio â thalu ffioedd yn berthnasol i'r Amodau hyn. Mae Adran 88(1) yn cynnwys y darpariaethau canlynol:</p> <p>"Lle gwneir diffyg taliad o ffioedd maes awyr a gafwyd o ran unrhyw awyren mewn maes glanio y mae'r adran hon yn berthnasol iddo, caiff awdurdod y maes glanio (yn amodol ar ddarpariaethau'r adran hon)</p> <p>a) gadw, nes ceir taliad, naill ai:</p> <p>i) yr awyren y codwyd y ffioedd yn ei chylch ni waeth a gawsant eu hachosi gan y sawl sy'n gweithredu'r awyren ar yr adeg y bydd yr awyren yn cael ei chadw:</p>

	<p>neu</p> <p>ii) unrhyw awyren arall y mae'r unigolyn mewn diffyg yn weithredwr iddi ar yr adeg y bydd yr awyren yn dechrau cael ei chadw; ac</p> <p>b) os na thalir y ffioedd ymhen 56 diwrnod o'r dyddiad y bydd yr awyren yn dechrau cael ei chadw, gwerthu'r awyren er mwyn talu'r ffioedd.</p> <p>Mae Adran 88(2) yn gofyn bod awdurdod y maes glanio'n rhyddhau awyren felly pan geir gwarant ddigonol i dalu'r ffioedd yr honnir eu bod yn ddyledus.</p>
6.	<u>Lien</u>
6.1	<p>Cyhyd â bod unrhyw awyren, neu unrhyw ddarnau ac ategolion neu unrhyw gerbyd wedi'u lleoli yn y Maes Awyr neu ar unrhyw dir o dan reolaeth CSP, bydd gan CSP lien cytundebol arbennig a chyffredinol dros yr awyren, ei darnau a'i hategolion ac unrhyw gerbyd am bob tâl, cost, ffi neu atebolrwydd arall o ba natur bynnag sy'n ddyledus ac yn daladwy i CSP o ran yr awyren honno, neu unrhyw awyren arall y mae'r Gweithredwr yn Weithredwr arni ar yr adeg yr arferir y lien. Ni fydd y lien yn cael ei golli am fod yr awyren yn gadael o dir dan reolaeth CSP ond bydd yn parhau yn arferadwy ar unrhyw adeg pan fydd yr awyren neu unrhyw un eraill o awyrennau'r Gweithredwr wedi dychwelyd i unrhyw dir felly, ac ar unrhyw dir felly, cyhyd â bod unrhyw rai o'r taliadau, costau, ffioedd neu atebolrwydd arall felly yn dal heb eu talu, ni waeth a aethpwyd iddynt cyn i'r awyren adael neu ar ôl iddi adael y man hwnnw.</p>
6.2	<p>Bydd CSP yn gallu hawlio ffioedd ardoll a geir o ran unrhyw awyren neu eiddo i'w storio neu fel arall yn ystod cyfnod arfer y lien a chaiff arfer lien ymhellach o ran taliadau, costau, ffioedd neu fathau eraill o atebolrwydd heb eu talu, fel y gwêl yn ddoeth.</p>
6.3	<p>Os bydd taliadau, costau, ffioedd neu fathau eraill o atebolrwydd yr arferir lien yn eu cylch heb eu talu o hyd, bydd CSP yn anfon drwy bost arferol at y Gweithredwr yn ei gyfeiriad cofrestredig ac at berchennog cofrestredig yr awyren yn ei gyfeiriad ar y Gofrestr briodol yn y Sir Gofrestru hysbysiad yn mynnu taliad ymhen 14 diwrnod o ddsbarthu'r llythyr. Os na fydd y taliad wedi'i dalu wedi hynny, bydd hawl yn yr awyren drwyddedig neu'r eiddo yn perthyn i CSP a chaiff CSP yn ôl ei ddisgresiwn werthu, gwaredu, symud neu ddinistrio awyren neu eiddo felly. Os bydd yn gwerthu neu waredu, ni fydd dyletswydd o gwbl ar CSP i gael y pris gorau posibl a chaiff ddefnyddio'r elw i dalu unrhyw swm dyledus ac unrhyw ffioedd, treuliau neu gostau yr aethpwyd iddynt mewn cysylltiad â gwaredu'r awyren cyn cyfrif am unrhyw weddill i unrhyw barti sydd â hawl iddo.</p>

6.4	Bydd CSP yn arfer y pwerau a nodwyd yn y Cymal hwn heb niweidio'r broses o arfer unrhyw bwerau eraill sy'n arferadwy gan CSP drwy rinwedd statud neu fel arall.
7.	<p><u>Yswiriant</u></p> <p>7.1 Bydd y Gweithredwr yn cael ac yn cynnal yswiriant trydydd parti ac atebolrwydd cyhoeddus am unrhyw awyren sydd dan ei berchenogaeth neu ei reolaeth ac sy'n defnyddio'r maes awyr neu'n cael ei chadw yno a hynny ar y lefel leiaf a bennir o bryd i'w gilydd gan CSP y mae'n rhaid cyngori'r yswiriwr am ei fuddiant a gwneud atodiad addas i'r polisi/tystysgrif. Rhaid darparu manylion y polisi yswiriant ar gais i CSP, ei weision neu ei asiantau a darparu tystysgrifau adnewyddu ar gyfer archwiliad blynyddol. Rhaid i weithredwyr sy'n defnyddio cerbydau 'wrth ymyl y maes glanio' sicrhau bob amser bod eu cerbyd wedi'i yswirio'n llawn ac yn briodol i'w ddefnyddio ar faes awyr a bydd yr un darpariaethau'n berthnasol i gyflwyno polisi a dogfennau adnewyddu i CSP ag y cyfeirir atynt uchod o ran Yswiriant Awyren.</p> <p>7.2 Bydd y gweithredwr drwy'r amser yn llwyr indemnio ac yn parhau i indemnio CSP am fethu â chydymffurfio â'r cymal hwn.</p>
8.	<p><u>Defnydd Preifat y Tu Allan i Oriau</u></p> <p>Caniateir i Weithredwyr ddefnyddio'r Maes Awyr y tu allan i'w oriau cyhoeddedig arferol ar gyfer hedfan yn breifat ar yr amod eu bod yn cydymffurfio drwy'r amser â gofynion y telerau ac amodau hyn, y Gorchymyn Awyrylwio, y Canllaw Maes Glanio ac unrhyw reol neu reoliad arall y gall y Maes Awyr ystyried ei bod yn addas eu cyflwyno o bryd i'w gilydd mewn perthynas â diogelwch defnyddio y tu allan i oriau.</p> <p>Caniateir y defnydd hwn y tu allan i oriau gan ddeall yn gaeth fod y Gweithredwr yn gwybod ac yn derbyn na fydd y Maes Awyr, y tu allan i'n horiau cyhoeddedig arferol, yn darparu unrhyw wasanaeth Tŵr Rheoli na Gwasanaeth Gwrthdaro ac Achub heblaw mewn achosion lle gofynnwyd am hynny a lle cytunwyd ar hynny.</p>
9.	<p><u>Gweithgareddau Masnachol y Tu Allan i Oriau Cyhoeddedig Arferol</u></p> <p>9.1 Mae'r Maes Awyr ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer teithiau hedfan masnachol y tu allan i oriau cyhoeddedig arferol drwy drefniant a chytundeb blaenorol yn unig ac mae'n amodol ar daliadau ychwanegol a nodir yng nghynllun codi tâl cyfredol y Maes Awyr; mae'r trefniadau hyn yn amodol ar daliadau canslo ac maent ar gael yn amodol ar argaeledd staff i gydymffurfio â gofynion yr Awdurdod Hedfan Sifil.</p>

9.2	Ni chaniateir Hyfforddiant Hedfan y tu allan i oriau cyhoeddedig arferol y Maes Awyr heblaw lle gwnaethpwyd trefniadau penodol gan y Gweithredwr gyda'r Maes Awyr a lle mae'r Gweithredwr wedi cytuno i ddarparu ei wasanaeth gwrthdaro ac achub a radio daear awyr ei hun, a lle mae'n gallu darparu hynny.
10.	<p><u>Cyfngiadau Hedfan Lleol</u></p> <p>Bydd y Gweithredwr yn cydymffurfio drwy'r amser â'r cyfngiadau, y rheolau a'r sylwadau hedfan lleol a gyhoeddir o bryd i'w gilydd mewn unrhyw Gyhoeddiad Gwybodaeth Awyrennol gan gynnwys heb gyfngiad Cyhoeddiad Peilotiaid Awyr y DU.</p>
11.	<p><u>Hedfan yn Isel</u></p> <p>Mae Rheolau'r Awyr 5 a 6 yn berthnasol. http://www.caa.co.uk/docs/33/CAP393.pdf Gwaherddir hedfan yn isel dros y Maes Awyr yn llwyr. Os bydd Gweithredwr unrhyw awyren yn methu â chydymffurfio â'r rheoliad hwn neu'n berchen ar awyren a ddefnyddir gan unrhyw drydydd parti sy'n gwneud rhywbeth felly, caiff CSP ei wahardd dros dro neu'n barhaol rhag defnyddio'r cyfleusterau yn y maes awyr.</p>
12.	<p><u>Cydymffurfio â Chyfarwyddyd, Gorchmynion a Chyfarwyddiadau</u></p> <p>Bydd pob Gweithredwr yn cydymffurfio â gofynion daliwr y drwydded fel y'u nodir yng Nghanllaw'r Maes Glanio ac unrhyw reolau, rheoliadau neu ofynion eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol o bryd i'w gilydd gan gynnwys heb gyfngiad y rheini sy'n berthnasol i ddiogelwch.</p>
13.	<p><u>Cyfrifoldeb y Gweithredwr</u></p> <p>13.1 Bydd pob Gweithredwr yn gyfrifol am unrhyw awyren neu eiddo arall dan ei berchenogaeth neu reolaeth tra bydd yn y Maes Awyr.</p> <p>13.2 Mae gofyn i bob Gweithredwr gymryd yr holl gamau angenrheidiol i ddiogelu'r awyren neu'r eiddo arall yn ddigonol ac i gyfyngu ar unrhyw fynediad anawdurdodedig neu ddefnydd anawdurdodedig o ran yr awyren neu eiddo arall.</p> <p>13.3 Mae'r cymal hwn hefyd yn berthnasol i unrhyw allweddi, caniatâd cerddwyr neu gerbyd a roddir gan CSP, yn ogystal ag unrhyw ddarpariaeth benodol arall a all fod yn berthnasol i'r eitemau hynny. Rhaid i'r Gweithredwyr sicrhau drwy'r amser fod yr eitemau hyn yn cael eu defnyddio gan y sawl y'u rhoddwyd iddo neu ar ei gyfer yn unig, ac nid gan unrhyw drydydd parti. Rhaid rhoi gwybod ar y cyfle cyntaf i Staff Maes Awyr CSP am unrhyw allweddi, pasys cerddwyr neu gerbyd a gollir</p>

	<p>a thalu am rai newydd ar y gyfradd sy'n gyfredol adeg y golled.</p> <p>Mae'n rhaid i'r holl Weithredwyr sicrhau eu bod yn 'cadw trefn' yn briodol ar y lle gwag yn yr awyrendy, o amgylch eu hawyren. Byddwch cystal â defnyddio'r biniau gwastraff a'r tanc olew gwastraff sydd ar gael ichi. Bydd staff y maes awyr yn eu gwagio'n rheolaidd.</p>
14.	<u>Llenwi Awyrennau â Thanwydd</u>
14.1	Oni chytunwyd ar unrhyw drefniadau eraill, bydd awyrennau yn y Maes Awyr yn cael eu llenwi â thanwydd o gyflenwad CSP o danwydd hedfan.
14.2	Bydd y Gweithredwyr yn cydymffurfio drwy'r amser â gofynion penodol CSP ac yn dilyn y weithdrefn a nodir yn CAP 748.
14.3	Ar ôl llenwi'r awyren â thanwydd, os nad yw'n gadael neu'n cael ei gosod mewn awyrendy, rhaid ei symud i rywle nad yw'n rhwystro'r ardal ddynodedig ar gyfer llenwi â thanwydd.
15.	<u>Dewis Cyfraith</u>
	Bydd y Telerau ac Amodau hyn ac unrhyw gontract neu gytundeb arall rhwng CSP ac unrhyw Weithredwr neu ddefnyddwyr eraill y maes awyr yn cael eu llywodraethu gan Gyfreithiau Cymru a Lloegr a'u dehongli yn unol â hwy.
16.	<u>Annilysrwydd</u>
	Os bydd unrhyw awdurdod cymwys yn ystyried bod unrhyw un o ddarpariaethau'r Telerau ac Amodau hyn yn annilys neu'n anorfodadwy, a hynny'n gyfan neu'n rhannol, ni fydd hynny'n effeithio ar ddilysrwydd darpariaethau eraill y telerau ac amodau hyn.

CYDNABOD Y TELERAU AC AMODAU

Os bydd Awyren yn eiddo i ddau, rhaid i'r ddau berchennog lofnodi'r ddogfen hon. Os bydd awyren yn destun trefniadau perchenogaeth luosog, rhaid i un lofnodwr awdurdodedig i'r grŵp lofnodi. Rhaid rhoi manylion cyswllt a chyfeiriad llawn yn y ddau achos.

Rwyf/Rydym yn cydnabod Fy Mod/Ein Bod wedi cael copi o'r Telerau ac Amodau Defnyddio ar gyfer Maes Awyr Hwlfordd ac Rwyf Fi/Rydym Ni'n cytuno y Byddaf Fi/Byddwn Ni a phawb arall sydd â budd yn yr awyren neu sy'n cael caniatâd i'w hedfan yn rhwym iddynt.

Math o Awyren:	
Rhif Cofrestru'r Awyren:	
Enw'r Perchennog / Llofnodwr Awdurdodedig:	
Cyfeiriad:	
Rhif Ffôn Cyswllt: E-bost:	
Llofnod:	
Dyddiad:	
Statws:	
Manylion y Cydberchennog:	
Enw'r Cydberchennog	
Cyfeiriad:	
Rhif Ffôn Cyswllt E-bost:	

Llofnod:	
Dyddiad:	

At ddibenion y ddogfen hon, ystyrir mai'r llofnodwr yw gweithredwr neu weithredwyr yr awyren y cyfeiriwyd ato/atynt uchod ac sy'n destun Telerau ac Amodau'r Maes Awyr.

MAES AWYR HWLFFORDD

TELERAU AC AMODAU DEFNYDDIO

